Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
# Heol Y Bont
# Gogledd Llandaf
# CF14 2JL

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol ddynodedig Gymraeg i ddisgyblion 11-18 oed. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod addysg lleol Caerdydd. Mae ynddi 1,132 o ddisgyblion o'i gymharu â 1,302 ar adeg yr arolygiad diwethaf ym Mai 2011. Mae'r newid hwn yn y niferoedd yn ganlyniad i agor trydedd ysgol gyfun Gymraeg yng Nghaerdydd.

Lleolir yr ysgol ger Afon Taf yn Ystum Taf ac mae'n gwasanaethu canolbarth dinas Caerdydd o'r gogledd i'r de. Mae 17.9% o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 10.1% o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r canran cenedlaethol o 17.1%.

Mae tua 36% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref ond mae pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Canran fechan iawn o ddisgyblion sy'n hanu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod llawn o allu. Mae 20% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol gydag ychydig dros 1% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn agos at y cyfartaleddau cenedlaethol. Mae canolfan adnoddau i ddisgyblion ag anghenion dysgu dwys o bob rhan o'r awdurdod addysg lleol wedi ei lleoli yn yr ysgol. Mae ynddi 12 o ddisgyblion ac maent i gyd ar gofrestr yr ysgol.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010. Mae'r tîm arwain yn cynnwys pennaeth, dirprwy bennaeth a phum pennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn 2016-2017 yw £5,014. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Caerdydd yw £6,861 a'r isafswm yw £4,327. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn yr wythfed safle o'r 19 yn awdurdod addysg Caerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gyson agos iawn i'r deilliannau wedi'u modelu dros amser
- mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd 5 TGAU A*-A neu gyfwerth yn llawer uwch na pherfformiad ysgolion tebyg am y drydedd flwyddyn yn olynol
- mae'r ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o falchder ac uchelgais yn ei disgyblion
- mae'r ysgol yn blaenoriaethu datblygiad personol disgyblion fel unigolion cyflawn, parchus a balch yn hynod lwyddiannus; mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar safonau uchel iawn o ymddygiad, lles a medrau rhyngbersonol y disgyblion
- mae cyfleoedd eang iawn i hybu iechyd, ffitrwydd, lles a datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion
- mae bron pob un disgybl yn dangos lefel uchel iawn o barch tuag at eu cyd-ddisgyblion, staff yr ysgol ac ymwelwyr
- yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae llawer o'r disgyblion yn awyddus iawn i ddysgu ac yn arddangos lefelau cymhelliant cryf a diddordeb amlwg yn eu gwaith
- mewn llawer o wersi, mae disgyblion o'r holl ystod gallu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr ar lafar gan fynegi eu hunain yn glir ac yn gywir
- mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu yn ysgrifennu'n rhwydd yn estynedig ac yn cyfathrebu gyda mynegiant clir a geirfa eang
- mae bron pob un athro yn meddu ar wybodaeth bynciol dda iawn ac mae llawer yn cyfathrebu'n eglur ac yn fodelau iaith da iawn
- mae gan lawer o'r athrawon berthynas weithio gadarnhaol gyda'u disgyblion

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n ddigonol oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir i ddarparu addysg gyflawn, cyfleoedd cyfartal a phrofiadau cyfoethog yn yr iaith Gymraeg
- mae arweinyddiaeth gadarn wedi arwain at safonau ardderchog mewn lles a chyfranogiad disgyblion ac at ethos cynhaliol, Cymreig yr ysgol
- mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ac mae'r uwch arweinwyr yn delio'n briodol ag achosion o danberfformiad
- mae rhaglen fuddiol o weithgareddau hyfforddi i ddiwallu anghenion datblygu proffesiynol y staff

- yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mireinio ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ac mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau sicrhau ansawdd priodol

Fodd bynnag:

- nid yw arweinyddiaeth wedi llwyddo i godi safonau mewn lleiafrif o ddangosyddion allweddol dros amser nac i gysoni ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol;
- nid yw rhychwant cyfrifoldebau yr uwch dîm rheoli wedi'i ddosrannu'n hafal
- mae'r anghysonderau mewn trefniadau rheolaeth llinell ar draws yr ysgol yn effeithio ar gynhwysedd rheolwyr i sicrhau atebolrwydd a chysoni arferion ar draws ac o fewn adrannau
- nid yw'r ysgol wedi mynd i ddigon o fanylder ynghylch y meysydd i'w gwella mewn arweinyddiaeth ac addysgu ar draws yr ysgol

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Cysoni ansawdd yr addysgu a'r asesu a mabwysiadu'r arferion cryf ar draws yr ysgol

A3 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a chryfhau lefel yr atebolrwydd

A4 Cryfhau a chysoni'r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg mewn lleiafrif o ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Ers 2014, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn agos iawn i'r deilliannau wedi'u modelu.

Mae perfformiad yr ysgol o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ychydig yn is na'r deilliannau wedi'u modelu ers 2014. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 yn is nag ysgolion tebyg eraill dros amser ac wedi dirywio ymhellach yn 2016. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd 5 TGAU A*-A neu gyfwerth yn llawer uwch na pherfformiad ysgolion tebyg am y drydedd flwyddyn yn olynol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o un cyfnod allweddol i'r nesaf.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg neu mathemateg wedi gwella dros amser. Roedd y perfformiad yn 2016 yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad bechgyn yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad y merched yn yr un dangosydd yn gryf iawn dros amser. Yn gyffredinol, mae disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o un cyfnod i'r nesaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un disgybl yn parhau mewn addysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae tueddiad bychan o welliant yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd dros y tair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd hwn yn debyg i berfformiad ysgolion tebyg eraill dros yr un cyfnod.

Yn y chweched dosbarth, ers 2014, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C wedi cynyddu dros amser ac, yn 2016, mae'r gyfran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran yn disgyblion sy'n ennill 3 gradd A*-A yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 3 wedi aros yn debyg dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer pob disgybl wedi dirywio dros amser ac yn is na chyfartaledd Cymru ers 2015.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae llawer o'r disgyblion yn awyddus iawn i ddysgu ac yn arddangos lefelau cymhelliant cryf a diddordeb amlwg yn eu gwaith. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu a'u medrau pynciol.

Yn y mwyafrif o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus wrth ddwyn i gof ddysgu blaenorol ac maent yn gwneud defnydd buddiol o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i wneud cynnydd pellach. Mewn ychydig o wersi, lle mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau dadansoddol a rhesymegol, gwna'r disgyblion gynnydd ardderchog, er enghraifft wrth ddadansoddi a gwerthfawrogi'r awdl 'Etifeddiaeth', Gerallt Lloyd Owen yn eu gwersi Cymraeg a thrafod penderfyniadau moesol yn y gwersi Saesneg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae ychydig o ddisgyblion yn rhy oddefol ac yn colli diddordeb yn eu gwaith, yn arbennig mewn tasgau undonog a hir. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, yn arbennig mewn medrau meddwl a medrau datrys problemau.

Yn y gwersi, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ac yn barchus ar yr athro a'u cyfoedion ac yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol i gyfarwyddiadau. Mewn llawer o wersi, mae llawer o ddisgyblion o'r holl ystod gallu yn gwneud cyfranogiad gwerthfawr ar lafar gan fynegi eu hunain yn glir ac yn gywir. Maent yn cynnig esboniadau estynedig cywir a synhwyrol ar lafar ac maent yn gyfathrebwyr huawdl ac aeddfed. Defnyddiant eirfa bynciol a therminoleg eang gyda mynegiant clir. Er bod ychydig o ddisgyblion yn cynnig ymatebion byr mewn ychydig o wersi, mae ansawdd yr eirfa gyfoethog sydd gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn nodwedd gref. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn naturiol yn Gymraeg yn gymdeithasol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac o amgylch yr ysgol ac mae hyn yn nodwedd eithriadol.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn arddangos medrau ysgrifennu cryf. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu yn ysgrifennu'n rhwydd yn estynedig ac yn cyfathrebu gyda mynegiant clir. Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar eirfa eang gan gynnwys defyndd cywir o derminoleg pwnc. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n soffistigedig gyda geirfa hynod o gyfoethog a mynegiant a chystrawen aeddfed. Mae lefel uchel iawn o gywirdeb iaith, sillafu ac atalnodi yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae disgyblion is eu gallu yn gwneud nifer o gamgymeriadau gramadegol a sillafu wrth ysgrifennu. Serch hyn, mae gan lawer o ddisgyblion o bob gallu y medrau i adnabod camgymeriadau ieithyddol yn eu gwaith eu hunain, esbonio rhesymau a chymhwyso rheolau gramadegol yn gywir wrth gywiro eu gwaith. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mewn ychydig o wersi, mae bron pob un disgybl yn arddangos medrau darllen cryf iawn wrth ymchwilio'n hyderus a synhwyrol i ystod eang o ffynonellau. Mae'r disgyblion yn y gwersi hyn yn arddangos medrau dadansoddol aeddfed iawn. Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o uwch fedrau darllen ynghyd â'u gwybodaeth bynciol i ddod i gasgliadau. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth mewn modd rhesymegol a chlir. Fodd bynnag, mewn ychydig o bynciau, lle mae cyfleoedd i ddatblygu darllen yn gyfyngedig, nid yw disgyblion yn ymarfer eu strategaethau darllen yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau darllen yn y gwersi hyn.

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau rhifedd sylfaenol ar draws y pynciau, er enghraifft trwy ddarllen a dehongli cyfeirnodau grid mewn gwersi daearyddiaeth neu lunio graffiau a chyfrifo cyfartaleddau mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cael anhawster wrth gymhwyso medrau rhifedd, er enghraifft wrth lunio graddfeydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw datblygiad medrau TGCh disgyblion ar draws y pynciau.

**Lles: Rhagorol**

Nodwedd eithriadol o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yw ymddygiad gwaraidd bron pob disgybl yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron pob un disgybl yn dangos lefel uchel iawn o barch tuag at eu cyd-ddisgyblion, staff yr ysgol ac ymwelwyr. Mae hyn yn adlewyrchu dyheadau'r ysgol i sicrhau lefelau uchel o 'Cymreictod, Cwrteisi, Parch'.

Mae niferoedd uchel iawn o ddisgyblion yn mynychu'r amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n hybu ffitrwydd a lles, er enghraifft clybiau dringo a chleddyfa. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini a byw'n iach. Un o nodweddion eithriadol yr ysgol yw llwyddiant nifer fawr o ddisgyblion ym meysydd chwaraeon, cerddoriaeth a drama mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda iawn â'r achosion prin o fwlio sy'n codi. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel ac wedi gwella'n gynyddol dros y tair blynedd diwethaf. Maent yn gosod yr ysgol yn y 50 % uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Ni fu unrhyw waharddiad parhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn dangos cymhelliant cryf ac ymagweddau cadarnhaol iawn at waith.

Trwy gyngor yr ysgol a fforymau eraill, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau pwysig yn yr ysgol, er enghraifft mewn materion amgylcheddol a chydraddoldeb ac wrth hyrwyddo Cymreictod.

Mae bron pob disgybl yn datblygu'u medrau cymdeithasol yn sylweddol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn llwyddiannus wrth gaffael y medrau hanfodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau. Cyfranna llawer o ddisgyblion yn helaeth at amrywiaeth eang iawn o weithgareddau allgyrsiol chwaraeon a diwylliannol yn ogystal â digwyddiadau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys sioeau cerdd blynyddol, amrywiol gystadlaethau'r Urdd a chodi arian sylweddol at elusennau. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y gymuned trwy eu hastudiaethau ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol, ac yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau blaenorol ei disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o bynciau addas yng nghyfnod allweddol 4 gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol. Mae trefn yr ysgol ar gyfer grwpio disgyblion yn briodol ac yn diwallu anghenion rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng

nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae amrywiaeth gyfoethog iawn o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymweliadau addysgol, yn atgyfnerthu'r cwricwlwm ac yn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer elfen llythrennedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gynhwysfawr ac mae medrau llythrennedd y disgyblion yn cael eu datblygu'n effeithiol ar draws y pynciau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd wedi ei mapio'n ofalus ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r ystod o gyfleoedd i ddatblygu'r medr hwn ar draws y pynciau perthnasol yn rhy gyfyng. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh ar draws y pynciau yn annatblygedig. Mae trefniadau traws-ysgol i gefnogi disgyblion gyda medrau llythrennedd a rhif gwan yn briodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg wedi cryfhau ymhellach yn ddiweddar ac yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Mae rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y Gymraeg, er enghraifft ansawdd y gwaith llafar ac ysgrifennu yn y gwersi a'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o amgylch yr ysgol. Mae'r gweithgor 'Byw yn y Gymraeg' yn fforwm effeithiol a defnyddiol i'r disgyblion hyrwyddo hyn.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Mae 'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn datblygu'n briodol ac mae gwaith y pwyllgor eco yn dechrau cael dylanwad ar fywyd yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae bron pob un athro yn meddu ar wybodaeth bynciol dda iawn ac mae llawer yn cyfathrebu'n eglur ac yn fodelau iaith da iawn. Mae gan lawer o'r athrawon berthynas waith gadarnhaol gyda'u disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol. Yn y mwyafrif o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn paratoi adnoddau priodol ac ysgogol.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae gan athrawon frwydfrydedd heintus wrth addysgu eu pwnc ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'u disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus iawn i sicrhau cyflawniad a chynnydd ardderchog eu disgyblion.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio cyfres o weithgareddau buddiol yn fwriadus sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu medrau pynciol ac mewn medrau llythrennedd. Mae nodau ac amcanion clir i'r gwersi hyn ynghyd â thempo sionc a thasgau diddorol, ysgogol.

Mewn tua hanner o wersi, mae'r arweiniad gan yr athro yn hirfaith ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Yn gyffredinol, mewn llawer o wersi, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gael cyfle i gynnig atebion enghreifftiol. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion tasgau a meini prawf llwyddiant.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion yn ansawdd y cynllunio ar gyfer tasgau,er enghraifft wrth osod tasgau rhy hir neu wrth beidio â chaniatáu digon o amser i ddisgyblion weithio'n annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn

cyflawni hyd eithaf eu gallu.  Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon buddiol i ymestyn eu medrau pynciol, yn ogystal â medrau rhif yn ddigonol. Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn gosod tasgau ysgrifennu a gwaith cartref anghynhyrchiol.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cwestiynu disgyblion yn effeithiol ac yn rhannu adborth buddiol ar lafar sy'n datblygu eu dealltwriaeth.  Maent yn gwirio cynnydd y disgyblion a'u cefnogi'n fedrus wrth gylchu'r dosbarth a phrocio unigolion er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn rhoi amser digonol i ddisgyblion ystyried a ffurfio eu hatebion ac maent yn ateb drostynt.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth buddiol ar waith disgyblion a chyngor pwrpasol iddynt ar sut i'w wella.  Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn cynnig sylwadau sy'n rhy arwynebol ac o werth cyfyngedig.  Dim ond mewn lleiafrif o achosion mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn gynhyrchiol i'w sylwadau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion.  Mae'r rhain yn galluogi athrawon ac arweinwyr i dargedu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni.  Drwy adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol llawn, mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth briodol gyda rhieni a gofalwyr am gyrhaeddiad eu plant.  Fodd bynnag, mae cynnwys lleiafrif o adroddiadau yn rhy arwynebol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol**

Mae'r ysgol yn blaenoriaethu datblygiad personol disgyblion fel unigolion cyflawn, parchus a balch yn hynod lwyddiannus.  Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar safonau uchel iawn o ymddygiad, lles a medrau rhyngbersonol y disgyblion.

Mae cyfleoedd eang iawn i hybu iechyd a ffitrwydd, lles a datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.  Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn llawn gweithgareddau cyfoes a defnyddiol sydd yn helpu paratoi disgyblion at bob agwedd o fywyd.  Er enghraifft, addysg rhyw a pherthynas, byw'n ddiogel a sut i fod yn ddinesydd da.  Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth arbennig er mwyn hyrwyddo gwerthoedd dinasyddiaeth dda a moesoldeb.  Mae'r sesiynau boreol yn ateb gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli ac yn cynnwys rhaglen eang o weithgareddau ysbrydol neu foesol diddorol ac ysgogol.

Mae gan yr ysgol brosesau gwrth-fwlio trwyadl sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau amgylchedd gofalgar, cynhwysol lle mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel.  Mae'r polisi hyrwyddo ymddygiad da yn hynod o effeithiol a chaiff ei gymhwyso'n fedrus ac yn sensitif gan y rhan fwyaf o athrawon.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n hynod o effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn cefnogi lles, iechyd a datblygiad cymdeithasol disgyblion.  Mae arweinwyr cynnydd a lles a'r swyddog presenoldeb yn monitro absenoldebauyn ofalus.  Maent wedi datblygu cysylltiadau agos â rhieni er mwyn cynorthwyo cyfathrebu ac ymateb yn gyflym i unrhyw faterion sy'n codi.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Derbynia'r disgyblion arweiniad a chyngor gwerthfawr a buddiol iawn wrth wneud penderfyniadau ar gyfer eu cyrsiau yn yr ysgol ac i'r dyfodol.

Mae trefniadau hynod o effeithiol ar gyfer adnabod, cefnogi a monitro anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys ystod helaeth o strategaethau a threfniadau effeithiol iawn i hyrwyddo a chefnogi lles, dysgu a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Mae arweinwyr y maes hwn yn cynllunio darpariaeth ac ymyrraeth benodol a phwrpasol i unigolion gydag anawsterau. Mae trefniadau yn cynnwys grwpiau cefnogaeth ar gyfer meithrin hunan-hyder, gwella medrau cymdeithasol a bywyd a chodi hunan-ddelwedd. Nodwedd eithriadol o waith yr ysgol yw'r cyfleoedd gwerthfawr sydd ar gael i ddisgyblion ddatblygu iechyd meddwl cadarnaol trwy sesiynau ymlacio a sesiynau meddylgarwch wythnosol. Mae'r ddarpariaeth hon wedi cael effaith hynod o gadarnaol ar les disgyblion ar draws yr ysgol ac ar bresenoldeb disgyblion bregus. Mae arweinwyr yn arfarnu effeithiolrwydd ac effaith pob ymyrraeth yn ofalus iawn. Mae trefniadau ar gyfer adolygiadau statudol blynyddol disgyblion yn effeithiol iawn ac yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu, cefnogi a gofalu am ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys yn y ganolfan adnoddau yn ardderchog. Nodwedd eithriadol o hyn yw'r modd y mae'r staff yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn integreiddio'n hynod o lwyddiannus i fywyd yr ysgol brif lif ac yn elwa'n llawn o'r cyfleoedd eang trawsgwricwlaidd sydd ar gael. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu holl ddisgyblion yr ysgol.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn cynnig ethos Cymreig arbennig ac mae'r ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o falchder ac uchelgais yn ei disgyblion. Mae hyn yn enwedig o ran yr ystod eang o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr iawn sydd ar gael i'r holl ddisgyblion ac, yn arwyddocaol, o ran gweithgareddau corfforol a chreadigol.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth feithrin agweddau positif ei disgyblion tuag at ei gilydd ac at staff ar draws yr ysgol. Mae cymuned yr ysgol yn un hynod o groesawgar, cynhaliol a chyfeillgar ac mae hyn yn adlewyrchu'n gryf arwyddair yr ysgol, sef 'Coron gwlad ei mamiaith'.

Mae trefniadau cynhwysfawr a gofalus ar waith ar gyfer cynnwys disgyblion ag anawsterau dysgu neu anableddau corfforol ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r modd y mae disgyblion o'r ganolfan arbennig yn integreiddio i fywyd yr ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth.

Mae'r holl safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n lân. Mae'r meysydd chwaraeon helaeth ac ardaloedd eraill o amgylch yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at greu awyrgylch ysgogol arbennig.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i ddarparu addysg gyflawn, cyfleoedd cyfartal a phrofiadau cyfoethog yn yr iaith Gymraeg, mewn awyrgylch Gymreig a chynhaliol. Caiff y weledigaeth hon ei choleddu'n gryf gan y rhan fwyaf o'r staff a'r disgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu at sefydlu ethos gwaraidd sydd yn cefnogi defnydd yr iaith Gymraeg gan y disgyblion yn academaidd ac yn gymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi llwyddo i gysoni ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio'i threfn o gyfarfodydd llinell ac adrannol fel eu bônt yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol yn fwy effeithiol. Er bod mwyafrif y cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n briodol ar faterion perthnasol, mae eu hansawdd yn amrywio'n ormodol. Mae lleiafrif o'r cofnodion hyn yn brin iawn o fanylion. Dim ond lleiafrif o gofnodion sydd yn cynnwys pwyntiau gweithredu ac yn dilyn i fyny ar weithredoedd blaenorol. Mae'r diffygion hyn wedi cyfyngu ar gynhwysedd rheolwyr i sicrhau atebolrwydd a chysoni arferion ar draws ac o fewn adrannau.

Yn eu cyfanrwydd, mae cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain yn addas i ddiwallu blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw rhychwant y cyfrifoldebau hyn wedi'i ddosrannu'n hafal. Mae gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth ormod o ddyletswyddau trwm ac mae cyfrifoldebau ychydig o'r uwch dîm arwain yn ysgafn ac yn cynnwys gormod o ddyletswyddau gweinyddol. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amser sydd gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth i weithredu'n strategol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ac mae'r uwch arweinwyr yn delio'n briodol ag achosion o danberfformiad. Ceir targedau mesuradwy ac uchelgeisiol ar gyfer bron pob aelod o staff sydd yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol gyfan. Mae rhaglen fuddiol o weithgareddau hyfforddi i ddiwallu anghenion datblygu proffesiynol y staff.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gryf i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft datblygu llythrennedd a Chymreictod yn arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth hyrwyddo datblygiad medrau rhifedd a TGCh ar draws y pynciau.

Mae'r llywodraethwyr yn grŵp angerddol sydd â gafael gadarn ar arwyddocâd data perfformiad. Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac maent yn ymwybodol iawn o'u llwyddiannau a'u heriau. Maent yn cynnig cefnogaeth gref i'r ysgol yn ogystal â chynnig her iddi wella, lle'n briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi mireinio ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn ddiweddar. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall y trefniadau newydd yn glir ac mae hyn wedi cyfrannu at arfarniad effeithiol a gonest o berfformiad ysgol-gyfan. Serch hynny, nid yw'r ysgol wedi mynd i ddigon o fanylder ynghylch y meysydd cyffredin i'w gwella mewn addysgu ar draws yr ysgol wrth hunanarfarnu.

Bellach, mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn dilyn fformat cyffredin defnyddiol. Mae pob arweinydd canol yn defnyddio data perfformiad a thystiolaeth o fonitro gwersi a llyfrau yn briodol er mwyn adnabod cryfderau a materion gweithredu penodol. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn hepgor rhai canfyddiadau pwysig. Er enghraifft, nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth ynghylch perfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau sicrhau ansawdd priodol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau adrannol effeithiol, dadansoddiadau o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, mae diffygion yn y gweinyddu. Er enghraifft, nid oes dyddiadau penodol ar gyfer y gweithgareddau arfarnu. Nid oes gan arweinwyr ddarlun digon cynhwysfawr o ansawdd yr addysgu. Er bod arweinwyr yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd, nid ydynt yn darparu adborth digon miniog ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn eu llyfrau, ac ansawdd yr asesu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llwyddiannus o farn disgyblion mewn nifer o feysydd, trwy brif fforwm 'Llais y Disgybl' a'i is-bwyllgorau gwerthfawr fel Byw yn y Gymraeg, 'Eco' a 'ChyfarTaf'. Serch hynny, nid yw'r ysgol yn casglu barn rhieni yn ddigon aml.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n blaenoriaethu'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w datblygu a adnabyddir trwy'r adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r pwyntiau gweithredu'n cynnwys digon o fanylder ar ddatblygu strategaethau ysgol gyfan i fynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella, er enghraifft mewn addysgu.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn cynnwys blaenoriaethau addas ar y cyfan ac yn adlewyrchu llawer o'r blaenoriaethau ysgol-gyfan. Mae'r cynlluniau'n drefnus ac yn cynnwys llawer o weithgareddau perthnasol. Serch hyn, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol ac ychydig iawn o dargedau meintiol sydd ynddynt. Yn ogystal, nid yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys cerrig milltir i ganiatáu i arweinwyr werthuso cynnydd. Nid yw arweinwyr cynnydd yn hunanarfarnu nac yn cynllunio'n ffurfiol ar gyfer gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion.

Mae trefniadau cadarn gydag ysgol gyfagos a choleg addysg bellach lleol yn sicrhau darpariaeth eang o gyrsiau gan gynnwys opsiynau galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod nifer dda o opsiynau ôl-16 cyfrwng Cymraeg ar gael i ddisgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer sicrhau ansawdd y cyrsiau hyn.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau buddiol gyda busnesau lleol. Mae cynrychiolwyr yn ymweld â'r ysgol ar ddiwrnodau gyrfaoedd er mwyn hybu medrau disgyblion, yn ogystal â chryfhau eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn elwa o'r berthynas gadarn rhwng yr ysgol a nifer o sefydliadau addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys perthynas arbennig gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sy'n dewis parhau â'u haddysg yn y Gymraeg.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion Cymraeg yr ardal i ddatblygu adnoddau, i rannu arfer da, ac i baratoi yn strategol ar gyfer diwygiadau i’r cwricwlwm.  Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae perthynas gref rhwng yr ysgol a’i hysgolion cynradd partner yn sicrhau dilyniant da rhwng y cynradd a’r uwchradd.  Mae gweithgareddau trosglwyddo gofalus a buddiol iawn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn yr ysgol.  Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag ystod o asiantaethau arbenigol i sicrhau cynnydd a lles disgyblion bregus, gan gynnwys unigolion ag anghenion dysgu dwys.

Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr.

**Rheoli adnoddau:  Da**

